Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Gylch Chwarae Benllech
# Uned Mathafarn
# Ysgol Goronwy Owen
# Benllech
# Ynys Môn
# LL74 8SG

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012**

**gan**

**Wil Williams**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Agorwyd Grŵp Chwarae Benllech o gwmpas deugain mlynedd yn ôl ac mae'n rhan o ddarpariaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol ar gyfer plant Benllech a'r ardal oddi amgylch. Bernir nad yw'r ardal y daw'r plant ohoni naill ai'n freintiedig nac o dan anfantais gymdeithasol nac economaidd.

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol na phlant o grwpiau ethnig wedi eu cofrestru yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu pum sesiwn bore'r wythnos ar gyfer plant dwy i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan blant unigol yn amrywio yn ôl dewis rhieni. Mae'r Bartneriaeth yn ariannu lleoedd ar gyfer un ar bymtheg o blant.

Saesneg yw prif iaith y cartref ar gyfer bron pob un o'r plant. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Saesneg, er bod y Gymraeg hefyd yn cael ei defnyddio.

Caiff addysg plant ei gefnogi gan arweinydd a phedwar ymarferydd ac mae pob un gyda chymwysterau priodol i ddysgu plant y blynyddoedd cynnar.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn uned cyn-ysgol a adeiladwyd yn unswydd i'r diben ar dir Ysgol Goronwy Owen. Mae'r adeiladau'n cynnwys prif ystafell helaeth, toiledau, cegin a storfeydd ac mae ganddi ei hardal ddynodedig ei hun y tu allan. Caiff yr adeilad ei ddefnyddio gan y Grŵp Chwarae yn y bore a'r Cylch Meithrin yn y prynhawn.

Ar ôl cwblhau eu hamser yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn parhau â'u haddysg yn yr ysgol gynradd leol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2010 a gan Estyn yn ystod mis Mawrth 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da mewn dysgu ac yn cyflawni safonau da;
- plant yn cael eu herio gan amrediad eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol;
- y ddarpariaeth ar gyfer medrau cyfathrebu a llythrennedd yn dda;
- gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant, ac
- ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad yn dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn darparu ymwybyddiaeth gref o ddiben;
- disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel;
- ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a ffyrdd gwahanol o weithio, ac
- amrediad eang iawn o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cryf i gyflawniad a lles plant.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 gynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol gan blant ac ymarferwyr:

A2 datblygu'r ardal oddi allan ymhellach, a

A3 chynyddu'r adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da mewn dysgu o'r amser maent yn dechrau yn y lleoliad ac yn cyflawni safonau da ym mhob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn adalw dysgu blaenorol yn dda, yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau da ac yn caffael gwybodaeth a medrau newydd gyda hyder cynyddol. Fel rheol, mae'r holl blant yn gweithio i eithaf eu gallu. Yn ystod gweithgareddau lle cânt ryddid i ddewis, maent yn arbrofi ac ymchwilio'n hyderus, yn cymryd siawns ac yn gwneud cynnydd da tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn cynnal ymdrech i ganolbwyntio a dyfalbarhau gyda thasgau am gyfnodau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio eu medrau cyfathrebu a llythrennedd yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r holl blant yn gallu cyfleu'r hyn a fynnant ac yn ystod trafodaethau torfol, yn mynegi eu teimladau a'u syniadau yn eglur a hyderus. Wrth chwarae'n strwythuredig neu yn rhydd ac yn ystod chwarae rôl yng nghaffi 'pryd clud' y dosbarth, mae'r plant yn defnyddio iaith addas i'r sefyllfa yn fedrus iawn.

Gyda neu heb oedolyn, mae plant o bob gallu yn dangos brwdfrydedd a diddordeb mewn llyfrau stori a llyfrau gwybodaeth ac yn mwynhau eu cynnwys, gan eu trin fel darllenwr. Gall llawer ddewis llyfrau yn annibynnol i ddiben penodol tra bo ychydig yn defnyddio amrediad cyfyng o strategaethau ar gyfer adnabod llythrennau a geiriau cyfarwydd. Mae'r plant i gyd yn arbrofi gyda gwneud marciau ac yn dechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, megis nodi archeb cwsmeriaid yn y caffi 'pryd clud'.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau sylfaenol gan leisiau cyfarwydd ac yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu defnyddio eu hunain. Yn ystod sesiynau torfol, maent yn ailadrodd rhai geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn gywir ac yn ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg â symudiadau yn frwdfrydig iawn. Mae bron pob un yn dilyn ac yn ymateb i straeon cyfarwydd ac yn dangos diddordeb yng nghynnwys llyfrau Cymraeg. Fodd bynnag, ychydig o blant yn unig sydd yn ddigon hyderus i gychwyn sgwrs yn y Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn arddangos lefel uchel o ddiddordeb a chymhelliad tuag at ddysgu ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae gan bob un ddealltwriaeth sicr o sut i fod yn iach trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a'r gweithgaredd corfforol y maent yn ei wneud. Mae gan y plant berthynas agos ag ymarferwyr ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad. Mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad ac oddi amgylch ac maent yn ystyriol a chwrtais tuag at y naill a'r llall ac oedolion. Wrth wneud gweithgareddau penodol, neu dasgau o'u dewis eu hunain, mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gytûn gan ddangos lefelau cynyddol o annibyniaeth. Mae'r holl blant yn fodlon iawn cymryd cyfrifoldebau fel cyfrif y nifer sy'n bresennol yn ystod cofrestru ac, wrth iddynt aeddfedu, maent yn dysgu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff egwyddorion y Cyfnod Sylfaen eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm a ddarperir ar gyfer plant. Trwy gyd-gynllunio manwl, mae ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu amrediad eang o weithgareddau diddorol a symbylus ar gyfer yr holl blant ar draws pob maes dysgu. Mae pob plentyn yn cael ei herio gan weithgareddau perthnasol sy'n darparu parhad a chynnydd yn ei ddysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau cyfathrebu, rhifedd a'r medrau ehangach yn gydlynus ac wedi'i gwreiddio'n gadarn ym mhrofiadau pob plentyn. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu agweddau o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cael eu llesteirio gan ddiffyg adnoddau addas. Defnyddir yr amgylchedd dan do a thu allan yn ddychmygus i annog plant i arbrofi gyda phrofiadau newydd ac i ddatblygu medrau allweddol. Caiff profiadau dysgu'r plant eu cyfoethogi'n sylweddol trwy deithiau cerdded byd natur ac ymweliadau â mannau yn y gymuned a gan ymwelwyr achlysurol â'r lleoliad.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer hybu'r iaith Gymraeg. Mae ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymru yn cael eu datblygu mewn modd diddorol ac ystyrlon iawn.

Mae plant yn cymryd rhan weithredol yn nod y lleoliad i weithredu'n gynaliadwy trwy gadw gwastraff i'r isafswm, arbed ynni ac ailgylchu papur. Trwy amrediad eang o weithgareddau llawn dychymyg, megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, mae dealltwriaeth plant o'r byd ehangach yn cael ei hybu'n effeithiol iawn.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth sicr o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant. Mae'r amgylchedd symbylus, heriol a chyffrous a grëir yn annog ymwneud, cyfranogiad a mwynhad plant. Caiff profiadau dysgu eu haddasu'n fedrus i gyfarfod ag anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy galluog a thalentog. Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd y mae'n briodol i ymyrryd yn dysgu'r plant a gwnânt hynny'n sensitif a medrus er mwyn annog plant i roi mwy o her iddyn nhw eu hunain wrth ddysgu. Mae cydbwysedd da yn cael ei gynnal rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plant a rhai sy'n cael eu cyfarwyddo gan ymarferydd. Caiff defnydd dychmygus ei wneud o amrywiaeth o adnoddau i apelio at ddiddordeb plant a gwella dysgu. Mae ffocws clir i gefnogaeth oedolion a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i ansawdd dysgu plant.

Caiff cynnydd a dysgu'r plant eu hasesu a'u tracio'n drwyadl ar draws pob maes dysgu a defnyddir y wybodaeth hon yn bwrpasol ar gyfer cynllunio'r cam nesaf mewn

dysgu. Mae'r arfer o wahodd rhieni am 'sgyrsiau datblygiad' gydag ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth dda trwy'r amser am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad, a dderbyniodd Wobr Ysgolion Iach Ynys Môn yn ddiweddar, bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer hybu byw yn iach a lles plant. Mae ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol mewn perthynas â bwlio, anaf a diogelu. Mae pob plentyn yn hyderus wrth ofyn i oedolyn am gefnogaeth neu arweiniad. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymdrechu i sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn cael eu cyfarfod. Pe bai angen, mae trefniadau tra datblygedig ar gyfer sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad priodol gan y lleoliad a gwasanaethau arbenigol.

Mae trefniadau anwytho effeithiol, ynghyd â pherthynas agos â rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae profiadau dysgu yn hybu datblygiad personol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal at bob maes dysgu a gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o ymyrraeth. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigaeth ddigonol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd symbylus lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn ar y profiad dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Ac eithrio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae cyflenwad tra helaeth o adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes dysgu ac maent wedi'u cyfatebu'n ofalus i anghenion datblygu a dysgu pob unigolyn. Caiff adnoddau yn y gymuned eu defnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi dysgu yn y dosbarth.

Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n llawn. Er bod yna ardal y tu allan ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, nid yw wedi cael ei datblygu i'w llawn botensial hyd yma.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd wedi llwyddo i greu ethos cadarnhaol yn y lleoliad fel bod plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r synnwyr cryf o ddiben a ddarperir gan yr arweinydd yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n

gydwybodol. Mae perthynas gyda phlant, rhieni a'r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n arwyddocaol i synnwyr o gymuned.

Mae disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel ond yn realistig, gyda'r arweinydd yn weithredol yn cefnogi a gosod her i bawb i wneud eu gorau. Mae gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad staff ac adnabod anghenion hyfforddiant a datblygiad unigolion a rhai lleoliad cyfan yn drylwyr ac effeithiol. Maent yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad a gweithredu newid.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae'n cefnogi'r lleoliad fel cyfaill beirniadol ac yn ddylanwadol mewn cynnal safonau uchel a gosod blaenoriaethau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda a thrwy reolaeth fwriadus yr arweinydd maent yn hunan arfarnu gydol yr amser ac ymchwilio i ffyrdd o wella. Sefydlwyd gweithdrefnau cadarn i gynnal arfer dda a gweithredu newidiadau mewn meysydd sydd angen eu gwella. Mae hunan arfarnu yn cymryd sylw gofalus o farn rheini ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol.

Caiff gwybodaeth sy'n deillio o hunan arfarnu ei defnyddio'n bwrpasol i flaenoriaethu materion y mae'r lleoliad yn dymuno eu gwella. Mae'r camau a gymerwyd i wella safonau ac i ddelio ag argymhellion adroddiad yr arolygiad blaenorol wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol.

Mae'r diwylliant o gydweithredu sydd wedi hen sefydlu, yn ogystal â bodlonrwydd staff i ymgymryd â chyfrifoldebau, yn ei gwneud yn bosib i'r lleoliad ddatblygu fel cymuned ddysgu gref. Mae ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn fodlon arbrofi gyda ffyrdd newydd o weithio ac i rannu eu gwybodaeth gydag eraill yn y lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae amrediad eang iawn o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cryf i gyflawniad a lles plant. Mae partneriaeth gynhyrchiol iawn gydag Ysgol Goronwy Owen, ac mae'r lleoliad yn manteisio'n sylweddol o barodrwydd yr ysgol i rannu adnoddau. Caiff rhieni wybodaeth reolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad, gyda'r arweinydd yn manteisio ar bob cyfle i'w cynnwys yn dysgu eu plant. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod â phwy i gysylltu a phryd os oes angen cefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant. Mae cysylltiadau cynhyrchiol iawn wedi eu ffurfio â nifer o sefydliadau yn y gymuned leol. Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm ac mae staff yn cael eu lleoli'n effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae adnoddau yn cael eu rheoli'n dda.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drwyadl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygiadol y lleoliad. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu harfarnu gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Roedd y nifer bychan iawn o holiaduron rhieni a dderbyniwyd yn mynegi barnau cadarnhaol am y lleoliad.

### Ymatebion i drafodaethau gyda phlant

Mae plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu gefnogaeth

## Atodiad 2

### Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |